| | <p>6.3 esbonio gwerth ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â sicrhau ansawdd mewnol</p> | <p>Sut mae'n rhaid i staff sy'n ymwneud ag asesu a sicrhau ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod eu hymarfer yn cyd-fynd â'r NOS presennol o ran asesu a/neu sicrhau ansawdd • adfyfrio'n barhaus ar eu hymarfer a sicrhau ei fod yn bodloni gofynion cyfreithiol, sefydliadol a chorff dyfarnu • dysgu gwersi o'u harfer, rhyngweithio â dysgwyr, aseswyr eraill a'r rhai sy'n ymwneud â'r prosesau sicrhau ansawdd a safoni a gwella'r hyn maen nhw'n ei wneud • cynnal eu harbenigedd galwedigaethol drwy sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r newidiadau mewn technoleg, arferion gwaith a safonau diweddaraf yn eu sector • cynnal eu harbenigedd mewn asesu a sicrhau ansawdd drwy gael y wybodaeth ddiweddaraf am safonau, gofynion a dulliau asesu newydd |
| | | <p><i>Cyfleoedd asesu cyfannol</i> Os yw SAM yr ymgeisydd hefyd yn ceisio'r uned ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Sicrhau ansawdd yr asesu yn fewnol</i> <p>gallai rhywfaint o dystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda SAM yr ymgeisydd ynglŷn â sut maen nhw wedi cynnal eu harbenigedd a'u cymhwysedd galwedigaethol a sicrhau ansawdd eu hunain.</p> |
| | <p>6.4 gwerthuso gofynion ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth a, lle y bo'n briodol, dwyieithrwydd, mewn perthynas â sicrhau ansawdd mewnol asesu</p> | <p>Sut y gallai gofynion cyfreithiol ac arfer gorau fod â goblygiadau i'r broses asesu a sicrhau ansawdd. Yn arbennig mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhywedd • anabledd • hil/diwylliant/crefydd • iaith <p><i>Cyfleoedd asesu cyfannol</i> Os yw SAM yr ymgeisydd hefyd yn ceisio'r uned ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Sicrhau ansawdd yr asesu yn fewnol</i> <p>gallai rhywfaint o dystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda SAM yr ymgeisydd ynglŷn â sut maen nhw wedi ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a – lle y bo'n briodol dwyieithrwydd – yn eu gwaith sicrhau ansawdd mewnol.</p> |

| | |
|--|------------------------------|
| Teitl: | Sicrhau Ansawdd Asesu Mewnol |
| Lefel: | 4 |
| Gwerth credydau: | 6 |
| <p>Canllawiau Cyffredinol Mae'r uned hon yn asesu cymhwysedd SAM ymgeisydd wrth sicrhau ansawdd yr asesu mewn canolfan neu sefydliad asesu. Rhaid i'r dystiolaeth sylfaenol ar gyfer y deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu ddod o SAM yr ymgeisydd yn monitro ansawdd mewnol a sicrhau ansawdd gwaith dau aseswr, pob un ag o leiaf ddau ymgeisydd eu hunain drwy gydrannau o gymhwyster.</p> <p>Gellir defnyddio tystiolaeth o'r uned hon – ar ffurf datganiadau a thrafodaethau – fel tystiolaeth ar gyfer yr uned ganlynol:</p> <p><i>401: Deall egwyddorion ac Ymarfer Sicrhau Ansawdd Asesu Mewnol</i></p> | |

Terminoleg

| | |
|--------------|--|
| Awthentig | <i>Gwaith yr Ymgeisydd ei hun.</i> |
| Cydraddoldeb | <i>Cyflwr o driniaeth deg sy'n hawl i'r holl bobl waeth beth fo'r gwahaniaethau mewn, er enghraifft, diwylliant, gallu, hil, rhyw, crefydd, cyfoeth, cyfeiriadedd rhywiol, neu unrhyw nodwedd grŵp arall</i> |
| Amrywiaeth | <i>Cydnabod bod pob unigolyn yn unigryw a chydnabod ein gwahaniaethau unigol mewn, er enghraifft, diwylliant, gallu, rhyw, hil, crefydd, cyfoeth, cyfeiriadedd rhywiol, neu unrhyw nodwedd unigol arall.</i> |
| Tystiolaeth | <i>Tystiolaeth o wybodaeth, dealltwriaeth, sgil neu gymhwysedd Ymgeisydd y gellir ei ddefnyddio i benderfynu ar ei gyflawniad yn erbyn safonau/meini prawf y cytunwyd arnynt</i> |
| Ymgeisydd | <i>Y person sy'n cael ei asesu gan yr aseswr sy'n ymgeisio</i> |
| Dibynadwy | <i>Cyflawni'r un canlyniadau'n gyson gyda gwahanol aseswyr a'r un grŵp (neu grŵp tebyg) o ymgeiswyr.</i> |
| Gofynion | <i>Gallai'r rhain fod yn ofynion sefydliad yr ymarferydd ei hun neu ofynion sefydliad allanol, megis sefydliad dyfarnu.</i> |
| Digonol | <i>Digon o dystiolaeth fel y nodir yn y Gofynion Tystiolaeth neu'r Strategaeth Asesu.</i> |
| Dilys | <i>Perthnasol i'r safonau/meini prawf y mae'r ymgeisydd yn cael ei asesu yn eu herbyn.</i> |
| Teg | <i>Sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i gael asesiad gwrthrychol a chywir.</i> |

Uned 402 Sicrhau Ansawdd Asesu Mewnol

| Deilliannau dysgu <i>Bydd sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn:</i> | Meini prawf asesu <i>Mae sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn gallu:</i> | Tystiolaeth <i>Rhaid i sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) ddarparu'r canlynol:</i> | Canllaw Arfer Gorau: <i>Er mwyn bodloni'r safon arfer gorau dylai'r canlynol fod yn berthnasol:</i> |
|---|--|---|---|
| 1. Gallu cynllunio sicrwydd ansawdd mewnol asesu | 1.1 cynllunio gweithgareddau monitro yn unol â gofynion eu rôl eu hunain | Cynhyrchion gwaith sy'n dangos cynllun i fonitro gwaith dau aseswr, y ddau yn gweithio gyda dau ddysgwr i gwmpasu cydrannau cymhwyster. | <p>Dylai cynllun(iau) SAM yr ymgeisydd gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • asesu risg a dull o reoli risg • monitro dogfennau, gwybodaeth ac adnoddau eraill a ddarperir i'r aseswyr a'r dysgwyr • arsylwi aseswyr • cynlluniau asesu samplau ac ymsefydlu ymgeiswyr • trafodaethau gydag ymgeiswyr a thystion • sampl o gynhyrchion • monitro ansawdd penderfyniadau asesu • monitro cofnodion a gedwir o asesu a hawliadau ardystio • gwerthuso cymhwysedd galwedigaethol ac asesu aseswyr • gwirio datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer aseswyr a dilyswyr • cymryd rhan mewn prosesau a gweithgareddau safoni • monitro anghenion dysgwyr ac adolygiadau cynnydd • gwirio'r defnydd o'r holl bolisiau perthnasol, gan gynnwys y rhai ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth <p>Dylai cynllunio ddangos gweithgarwch rheolaidd dros y cyfnod asesu ac ni ddylid ei dargedu tuag at ddiwedd y broses ddysgu ac asesu, neu ar ddiwedd y broses.</p> <p>Gellid cadarnhau hyn drwy dystiolaeth gan dystion</p> |

| Deilliannau dysgu <i>Bydd sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn:</i> | Meini prawf asesu <i>Mae sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn gallu:</i> | Tystiolaeth <i>Rhaid i sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) ddarparu'r canlynol:</i> | Canllaw Arfer Gorau: <i>Er mwyn bodloni'r safon arfer gorau dylai'r canlynol fod yn berthnasol:</i> |
|--|---|--|---|
| | 1.2 gwneud trefniadau ar gyfer gweithgareddau monitro mewnol i sicrhau ansawdd | Cynhyrchion gwaith sy'n dangos trefniadau ymarferol i fonitro gwaith dau aseswr, y ddau yn gweithio gyda dau ddysgwr i gwmpasu cydrannau cymhwyster. | Dylai paratodau'r ymgeisydd IQA gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • amseroedd a lleoliadau ar gyfer arsylwadau a chyfarfodydd gydag aseswyr • cyfleoedd i roi adborth i aseswyr • trefniadau ar gyfer trafodaethau gyda dysgwyr a thystion • trefniadau ar gyfer portffolios a mathau eraill o dystiolaeth • trefniadau ar gyfer cofnodion asesu • trefniadau ar gyfer gwybodaeth am aseswyr a dysgwyr • trefniadau ar gyfer gweithgareddau safoni Gellid cadarnhau hyn drwy dystiolaeth gan dystion |
| 2. Gallu gwerthuso ansawdd yr asesu yn fewnol | 2.1 cynnal gweithgareddau monitro mewnol i ofynion ansawdd | O leiaf un arsylwad wedi'i ategu gan gynhyrchion gwaith sy'n dangos monitro gwaith dau aseswr, y ddau yn gweithio gyda dau ddysgwr i gwmpasu cydrannau cymhwyster. | Arsylwi SAM yr ymgeisydd yn arsylwi a rhoi adborth i aseswr/aseswyr sy'n cynnal gweithgareddau asesu gyda dysgwr/dysgwyr Mae'n Rhaid i SAM yr ymgeisydd ddangos ei fod wedi dilyn pob agwedd ar ei gynllun monitro a sicrhau ansawdd a bod holl bolisiâu, gweithdrefnau a meini prawf y Sefydliad Dyfarnu a'r Sefydliad Dyfarnu wedi'u dilyn. |
| | 2.2 gwerthuso arbenigedd a chymhwysedd aseswyr mewn perthynas â gofynion eu rôl | Cynhyrchion gwaith, wedi'u hategu gan o leiaf un arsylwad, sy'n dangos sut mae SAM yr ymgeisydd wedi gwirio arbenigedd a chymhwysedd dau aseswr, y ddau yn gweithio gyda dau ddysgwr i gwmpasu cydrannau cymhwyster. | Dylai SAM yr ymgeisydd ddangos, drwy drafodaeth neu ddatganiad, pa ofynion y gwnaethon nhw eu defnyddio i werthuso arbenigedd a chymhwysedd aseswyr yn eu herbyn a sut y gwnaethant y gwerthusiad. |

| Deilliannau dysgu <i>Bydd sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn:</i> | Meini prawf asesu <i>Mae sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn gallu:</i> | Tystiolaeth <i>Rhaid i sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) ddarparu'r canlynol:</i> | Canllaw Arfer Gorau: <i>Er mwyn bodloni'r safon arfer gorau dylai'r canlynol fod yn berthnasol:</i> |
|---|---|--|---|
| | 2.3 gwerthuso'r gwaith o gynllunio a pharatoi prosesau asesu | Cynhyrchion gwaith sy'n dangos sut mae SAM yr ymgeisydd wedi gwerthuso'r gwaith o gynllunio a pharatoi asesiadau gan ddau aseswr, y ddau yn gweithio gyda dau ddysgwr i gwmpasu cydrannau cymhwyster. | Dylai SAM yr ymgeisydd ddangos, drwy drafodaeth neu ddatganiad, yr hyn yr oeddent yn chwilio amdano wrth gynllunio a pharatoi eu haseswyr a sut y gwnaethant benderfynu p'un a oedd cynllunio a pharatoi yn briodol. |
| | 2.4 penderfynu p'un a yw dulliau asesu yn ddiogel, yn deg, yn ddilys ac yn ddibynadwy | Cynhyrchion gwaith, wedi'u hategu gan o leiaf un arsylwad, a thrafodaethau sy'n dangos sut mae SAM yr ymgeisydd wedi gwirio'r dulliau asesu a ddefnyddir gan ddau aseswr, y ddau yn gweithio gyda dau ddysgwr i gwmpasu cydrannau cymhwyster. | Arsylwi SAM yr ymgeisydd yn rhoi adborth i aseswr/aseswyr sy'n cynnal gweithgareddau asesu gyda'r dysgwr/dysgwyr Dylai SAM yr ymgeisydd ddangos, drwy drafodaeth neu ddatganiad, sut y gwnaethant wirio diogelwch, tegwch, dilysrwydd a dibynadwyedd y dulliau asesu a ddefnyddiwyd gan eu haseswyr. |
| | 2.5 penderfynu p'un a yw penderfyniadau asesu'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r meini prawf penodedig | Cynhyrchion gwaith, wedi'u hategu gan o leiaf un arsylwad, a thrafodaethau sy'n dangos sut mae SAM yr ymgeisydd wedi gwirio'r penderfyniadau asesu a ddefnyddir gan ddau aseswr, y ddau yn gweithio gyda dau ddysgwr i gwmpasu cydrannau cymhwyster. | Arsylwi SAM yr ymgeisydd yn rhoi adborth i aseswr/aseswyr sy'n cynnal gweithgareddau asesu gyda'r dysgwr/dysgwyr Dylai SAM yr ymgeisydd ddangos drwy drafodaeth sut y gwnaethant werthuso'r penderfyniadau asesu a wnaed gan eu haseswyr a phenderfynu a oeddent yn bodloni meini prawf y cytunwyd arnynt ar gyfer cymhwyster y dysgwyr ai peidio. |
| | 2.6 cymharu penderfyniadau aseswyr er mwyn sicrhau eu bod yn gyson | Cynhyrchion gwaith, wedi'u hategu gan drafodaethau sy'n dangos sut mae SAM yr ymgeisydd wedi gwirio'r dulliau asesu a ddefnyddir gan ddau aseswr, y ddau yn gweithio gyda dau ddysgwr i gwmpasu cydrannau cymhwyster. | Dylai SAM yr ymgeisydd ddangos drwy drafodaeth sut y gwnaethant gymharu penderfyniadau asesu a wnaed gan yr un aseswr ar draws gwahanol ddysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd cyson. Dylent hefyd ddangos sut maen nhw wedi cymharu penderfyniadau asesu nifer o aseswyr er mwyn sicrhau cysondeb rhyngddynt. |

| Deilliannau dysgu Bydd sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn: | Meini prawf asesu Mae sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn gallu: | Tystiolaeth Rhaid i sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) ddarparu'r canlynol: | Canllaw Arfer Gorau: Er mwyn bodloni'r safon arfer gorau dylai'r canlynol fod yn berthnasol: |
|--|--|--|--|
| <p>3. Gallu cynnal a gwella ansawdd yr asesu yn fewnol</p> | <p>3.1 rhoi adborth, cyngor a chymorth i asesywyr, gan gynnwys cyfleoedd datblygiad proffesiynol, sy'n eu helpu i gynnal a gwella ansawdd yr asesu</p> | <p>Cynhyrchion gwaith ar ffurf cofnodion cyfarfodydd rhwng SAM yr ymgeisydd a'r ddau aseswr, wedi'u hategu gan arsylwad o sesiynau adborth gyda gwahanol asesywyr.</p> | <p>Arsylwi SAM yr ymgeisydd yn rhoi adborth ac arweiniad i aseswr/aseswyr</p> <p>Dylai cofnodion o gyfarfodydd ac arsylwadau ddangos bod SAM yr ymgeisydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn nodi'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd, asesiadau a gynhaliwyd a chofnodion a wnaed gan yr asesywyr • yn benodol am gryfderau a gwendidau o ran ansawdd cynllunio, tystiolaeth, arsylwadau, penderfyniadau asesu a chofnodion • yn rhoi beirniadaeth adeiladol sy'n canmol y cryfderau ac sy'n onest ac yn glir ynghylch meysydd lle mae angen newid ymarfer • yn rhoi cyngor penodol ar sut y gellid datblygu'r arfer asesu a gwella ymhellach • yn amlygu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i'r asesywyr <p>Os nad yw SAM yr ymgeisydd yn nodi meysydd penodol i'w newid neu eu datblygu yn arferion yr asesywyr, byddant yn dangos drwy drafodaeth pa fathau o faterion ymarfer asesu y gallent ddod ar eu traws a pha fathau o adborth, cyngor a chymorth y byddent yn eu rhoi, gan gynnwys cyfleoedd DPP.</p> |

| Deilliannau dysgu Bydd sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn: | Meini prawf asesu Mae sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn gallu: | Tystiolaeth Rhaid i sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) ddarparu'r canlynol: | Canllaw Arfer Gorau: Er mwyn bodloni'r safon arfer gorau dylai'r canlynol fod yn berthnasol: |
|--|--|---|---|
| | 3.2 cymhwyso gweithdrefnau i safoni arferion a chanlyniadau asesu | Cynhyrchion gwaith ar ffurf cofnodion cyfarfod sy'n dangos bod SAM yr ymgeisydd wedi cymryd rhan mewn prosesau safoni yn y ganolfan ar o leiaf ddau achlysur. | Dylai cynhyrchion gwaith ddangos bod SAM yr ymgeisydd wedi cymryd rhan mewn prosesau a gweithgareddau safoni yn y ganolfan a'i fod wedi gweithio gydag asesydd (a SAMau eraill os yw'n berthnasol) i gyflawni dehongliad cyffredin o feini prawf, penderfyniadau asesu safonedig a meysydd i'w gwella. Gellid cadarnhau hyn drwy dystiolaeth gan dystion |
| 4. Gallu rheoli gwybodaeth sy'n berthnasol i sicrhau ansawdd mewnol asesu | 4.1 cymhwyso gweithdrefnau ar gyfer cofnodi, storio ac adrodd am wybodaeth sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd mewnol | Rhaid cael dystiolaeth drwy gynhyrchion gwaith ar ffurf cofnodion a storiwyd yn briodol gan SAM yr ymgeisydd ac adroddiadau maen nhw wedi'u cynhyrchu. | Rhaid cwblhau cofnodion yn unol â gofynion y ganolfan a'r sefydliad dyfarnu. Rhaid storio'r rhain mewn ffordd sy'n bodloni gofynion y sefydliad dyfarnu a'r ganolfan. Gellid cadarnhau hyn drwy dystiolaeth gan dystion. Rhaid i SAM yr ymgeisydd gynhyrchu o leiaf un adroddiad (ar gyfer ei reolwr llinell/sefydliad) yn amlinellu ac yn adrodd yn ôl ar ei weithgareddau monitro a gweithgareddau sicrhau ansawdd eraill. |
| | 4.2 dilyn gweithdrefnau i gynnal cyfrinachedd gwybodaeth sicrhau ansawdd mewnol | Cynhyrchion gwaith a thrafodaeth. | Rhaid storio cofnodion ac adroddiadau yn ddiogel, gan alluogi mynediad i bersonél awdurdodedig yn unig. Dylid cynnal trafodaeth hefyd gyda SAM yr ymgeisydd neu ddatganiad ganddynt yn amlinellu'r gofynion cyfrinachedd a sut maen nhw'n mynd ati i gynnal y rhain. Gellid cadarnhau hyn hefyd drwy dystiolaeth gan dystion |
| 5. Gallu cynnal gofynion cyfreithiol ac arfer da wrth fonitro a chynnal Ansawdd Asesu Mewnol | 5.1 cymhwyso polisiau, gweithdrefnau a deddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â sicrhau ansawdd mewnol, gan gynnwys y rhai ar gyfer iechyd, diogelwch a lles | Cofnodion o arsylwadau o arferion asesu, cynhyrchion gwaith a thrafodaeth. | Rhaid i bob arsylwad a chynnyrch gwaith gadarnhau bod SAM yr ymgeisydd wedi dilyn holl bolisiau a gweithdrefnau'r ganolfan berthnasol a'r sefydliad dyfarnu ac unrhyw ddeddfwriaeth briodol. Gallai gynnwys materion iechyd a diogelwch. Dylai'r dystiolaeth hon gael ei hategu gan drafodaeth neu ddatganiad gan SAM yr ymgeisydd am y polisiau, y gweithdrefnau a'r meysydd deddfwriaeth allweddol y dylent eu dilyn ac esboniad o sut maen nhw'n gwneud hyn. Gellid cadarnhau hyn drwy dystiolaeth gan dystion |

| Deilliannau dysgu Bydd sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn: | Meini prawf asesu Mae sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) yn gallu: | Tystiolaeth Rhaid i sicrhawr ansawdd mewnol yr ymgeisydd (SAM/IQA) ddarparu'r canlynol: | Canllaw Arfer Gorau: Er mwyn bodloni'r safon arfer gorau dylai'r canlynol fod yn berthnasol: |
|--|---|--|---|
| | 5.2 cymhwyso gofynion ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth a, lle y bo'n briodol, dwyieithrwydd, mewn perthynas â sicrhau ansawdd mewnol | Cofnodion o arsylwadau o arferion asesu, cynhyrchion gwaith wedi'u hategu gan drafodaeth neu ddatganiad | Rhaid i bob arsylwad a chynnyrch gwaith gadarnhau bod SAM yr ymgeisydd wedi dilyn holl bolisiau a gweithdrefnau'r ganolfan berthnasol a'r sefydliad dyfarnu ac unrhyw ddeddfwriaeth briodol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Dylai'r dystiolaeth hon gael ei hategu gan drafodaeth neu ddatganiad gan SAM yr ymgeisydd am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y broses asesu a sicrhau ansawdd a beth yw arfer da o ran y rhain. Gellid cadarnhau hyn drwy dystiolaeth gan dystion |
| | 5.3 myfyrio'n feirniadol ar eich arfer eich hun wrth sicrhau ansawdd yr asesu yn fewnol | Trafodaeth neu ddatganiad | Dylai SAM yr ymgeisydd esbonio – naill ai drwy drafodaeth neu ddatganiad – sut y bydd yn parhau i adfyfrio ar ei arfer a chynllunio a chymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â'u harbenigedd galwedigaethol yn y sector a'u cymhwysedd mewn asesu a sicrhau ansawdd. |
| | 5.4 cynnal perthnasedd ei arbenigedd a'i gymhwysedd ei hun wrth Sicrhau Ansawdd Asesu Mewnol | Dogfennaeth yn amlinellu'r camau a gymerwyd i gynnal eu DPP a'u cymhwysedd eu hunain | Cofnodion DPP, cofnodion presenoldeb, tystysgrifau sy'n dangos sut mae SAM ymgeisydd wedi cynnal perthnasedd o ran arbenigedd a chymhwysedd. |

| | | |
|--|---|--|
| Teitl: | Cynllunio, dyrannu a monitro gwaith yn eich maes cyfrifoldeb eich hun | |
| Lefel: | 4 | |
| Gwerth credydau: | 5 | |
| Deilliannau dysgu | Meini prawf asesu | |
| Bydd y dysgwr yn: | Mae'r dysgwr yn gallu: | |
| 1. Llundio cynllun gwaith ar gyfer ei faes cyfrifoldeb ei hun. | 1.1 Egluro'r cyd-destun ar gyfer gwneud gwaith. 1.2 Nodi'r sylfaen sgiliau a'r adnoddau sydd ar gael. 1.3 Archwilio'r blaenoriaethau a'r meini prawf llwyddiant sydd eu hangen ar gyfer y tîm. 1.4 Llundio cynllun gwaith ar gyfer ei faes cyfrifoldeb ei hun. | |
| 2. Dyrannu a chytuno ar gyfrifoldebau gydag aelodau'r tîm. | 2.1 Nodi cyfrifoldebau aelodau'r tîm ar gyfer gweithgareddau gwaith a nodwyd. 2.2 Cytuno ar gyfrifoldebau ac amcanion CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) gydag aelodau'r tîm. | |
| 3. Monitro cynnydd ac ansawdd y gwaith yn ei faes cyfrifoldeb ei hun a rhoi adborth. | 3.1 Nodi ffyrdd o fonitro cynnydd ac ansawdd gwaith. 3.2 Monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn safonau y cytunwyd arnynt a rhoi adborth i aelodau'r tîm. | |
| 4. Adolygu a diwygio cynlluniau gwaith ar gyfer ei faes cyfrifoldeb ei hun a chyfathrebu newidiadau. | 4.1 Adolygu a diwygio cynllun gwaith lle mae angen newidiadau. 4.2 Cyfleu newidiadau i aelodau'r tîm. | |

Uned 403 Cynllunio, Dyrannu a Monitro Gwaith yn eich Maes Cyfrifoldeb eich Hun

| Gwybodaeth ychwanegol am yr uned | |
|--|--|
| Nod(au) yr uned | Mae'r uned hon yn helpu dysgwyr i gynllunio, dyrannu a monitro gwaith yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain, a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i gynlluniau gwaith gwreiddiol. |
| Nodi manylion am y berthynas rhwng yr uned a safonau galwedigaethol cenedlaethol (os yn briodol) | MSC D6 Dyrannu a monitro cynnydd ac ansawdd gwaith yn eich maes cyfrifoldeb eich hun |
| Nodi manylion am y berthynas rhwng yr uned a safonau neu gwricwla eraill (os yn briodol) | |
| Gofynion asesu a bennir gan sector neu gorff rheoleiddio (os yn briodol) | |
| Cymeradwyaeth ar gyfer yr uned gan sector neu gorff priodol arall (os oes angen) | Canolfan Rheoli Safonau |
| Lleoliad yr uned o fewn y pwnc/trefn dosbarthu'r sector | 15.3 |
| Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r uned | LLUK |
| Argaeledd i'w ddefnyddio | Wedi'i rannu |
| Oriau Dysgu Dan Arweiniad | 25 |

5 Ffurflenni cofnodi

Mae'r llyfr hwn yn cynnwys pob un o'r ffurflenni y bydd eu hangen arnoch chi a'ch aseswr i gynllunio, adolygu a threfnu eich gwaith. Bydd eich aseswr yn gallu eich helpu i benderfynu pa ffurflenni y mae angen i chi eu cwblhau ac yn eich helpu i'w llenwi.

Gwnewch gopi o'r ffurflenni hyn fel sy'n ofynnol.

Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol

Prosesau ac Arfer Asesu

Uned 401 Cynllun Asesu Cyffredinol

| | | | |
|-----------------------|--|--------------------------|--|
| Ymgeisydd | | Uned | |
| Aseswr | | Canlyniadau dysgu | |
| Dyddiad targed | | Dyddiad cyflawni | |

| Dyddiad | Uned 401 Camau y Cytunwyd Arnynt | Erbyn pryd | Dyddiad Adolygiad | Cyflawn wyd? | Sylwadau |
|---------|---|---------------|----------------------|-----------------|----------|
| | Cwblhau'r cyfnod ymsefydlu | | | | |
| | Ymgymryd â dysgu | | | | |
| | Ei ymchwil a'i ddarllen ei hun Meddwl am aseiniad Llenwi'r Dyddiadur Adfyfyriol | | | | |
| | Cysylltu ag aseswr Sesiwn cymorth ar-lein/ar y ffôn Ei ymchwil a'i ddarllen ei hun Dechrau aseiniad Llenwi'r Dyddiadur Adfyfyriol | | | | |
| | Sesiwn cymorth ar-lein/ar y ffôn Ei ymchwil a'i ddarllen ei hun Gweithio ar aseiniad Llenwi'r Dyddiadur Adfyfyriol | | | | |
| | Cyflwyno aseiniad | | | | |
| | Adborth ar-lein/ffôn gan aseswr | | | | |

Llofnodion

Ymgeisydd _____

Dyddiad _____

Aseswr _____

Dyddiad _____

Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol
Prosesau ac Arfer Asesu
Uned 402 Cynllun Asesu Cyffredinol

| | | | |
|-----------------------|--|--------------------------|--|
| Ymgeisydd | | Uned | |
| Aseswr | | Deilliannau dysgu | |
| Dyddiad targed | | Dyddiad cyflawni | |

| Dyddiad | Uned 402 Camau y Cytunwyd Arnynt | Erbyn pryd | Dyddiad Adolygiad | Cyflawnwyd? | Sylwadau |
|----------------|--|-------------------|--------------------------|--------------------|-----------------|
| | Cwblhau'r cyfnod ymsefydlu | | | | |
| | Dechrau casglu tystiolaeth Llenwi'r Dyddiadur Adfyfyriol | | | | |
| | Sesiwn cymorth ar-lein/ffôn Ei ymchwil a'i ddarllen ei hun Parhau i gasglu tystiolaeth Cyswllt ag aseswr i fonitro cynnydd Llenwi'r Dyddiadur Adfyfyriol | | | | |
| | Sesiwn cymorth ar-lein/ffôn Ei ymchwil a'i ddarllen ei hun Parhau i gasglu tystiolaeth Cyswllt ag aseswr i fonitro cynnydd Llenwi'r Dyddiadur Adfyfyriol | | | | |
| | Cyflwyno uned i'w hasesu | | | | |
| | Adborth gan aseswr | | | | |
| | Casglu tystiolaeth ymhellach ac asesu pellach os oes angen | | | | |

Llofnodion

Ymgeisydd _____ **Dyddiad** _____

Aseswr _____ **Dyddiad** _____

| | | | |
|-----------------------|--|--------------------------|--|
| Ymgeisydd | | Uned | |
| Aseswr | | Deilliannau dysgu | |
| Dyddiad targed | | Dyddiad cyflawni | |

| Dyddiad | Uned 403 Camau y Cytunwyd Arnynt | Erbyn pryd | Dyddiad Adolygiad | Cyflaw nwyd? | Sylwadau |
|---------|---|---------------|----------------------|-----------------|----------|
| | Cwblhau'r cyfnod ymsefydlu | | | | |
| | Dechrau casglu tystiolaeth Llenwi'r Dyddiadur Adfyfyriol | | | | |
| | Sesiwn cymorth ar-lein/ar y ffôn Ei ymchwil a'i ddarllen ei hun Parhau i gasglu tystiolaeth Cyswllt ag aseswr i fonitro cynnydd Llenwi'r Dyddiadur Adfyfyriol | | | | |
| | Sesiwn cymorth ar-lein/ar y ffôn Ei ymchwil a'i ddarllen ei hun Parhau i gasglu tystiolaeth Cyswllt ag aseswr i fonitro cynnydd Llenwi'r Dyddiadur Adfyfyriol | | | | |
| | Cyflwyno uned i'w hasesu | | | | |
| | Adborth gan aseswr | | | | |
| | Casglu tystiolaeth ymhellach ac asesu pellach os oes angen | | | | |

Llofnodion

Ymgeisydd _____

Dyddiad _____

Aseswr _____

Dyddiad _____

TUDALEN DYDDIADUR ADFYFYRIOL



Defnyddiwch y ddogfen hon i gofnodi'r hyn rydych wedi'i ddysgu yn y broses o gwblhau'r unedau. Gallwch ei chyflwyno fel rhan o'ch portffolio os dymunwch ond ni fydd yn rhan o'r broses asesu. Ei diben yw eich annog i ystyried yr hyn yr ydych wedi'i ddysgu a nodi sut y gallwch symud hyn ymhellach yn ei flaen.

Enw'r Ymgeisydd.....

Mae prif bwyntiau tudalen y dyddiadur hwn yn ymwneud ag Uned(au):.....

| | |
|--|-----------------|
| Enw'r sesiwn/gweithgaredd: | |
| Dyddiad y sesiwn/gweithgaredd: | |
| Y prif bwyntiau rwyf wedi'u dysgu o hyn yw: | |
| Mewn perthynas â'r maes hwn o ymarfer SAM, mae angen i mi wybod mwy am: | |
| Llofnod yr ymgeisydd: | Dyddiad: |

Datganiad sicrhawr ansawdd mewnol (SAM/IQA): Mae'r adran hon i'w gadael yn wag os nad yw'r uned hon wedi cael ei samplu.

Rwyf wedi sicrhau ansawdd gwaith asesu'r uned hon yn y ffyrdd canlynol:

| | |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Samplu tystiolaeth asesu ac ymgeisydd | <input type="checkbox"/> Arsylwi arfer asesu |
| <input type="checkbox"/> Trafodaeth gydag ymgeisydd | <input type="checkbox"/> Arall |

Rwy'n cadarnhau bod y gwaith a samplwyd gan yr ymgeisydd yn bodloni'r safonau a bennir ar gyfer yr uned hon ac y gellir ei gyflwyno ar gyfer sicrhau ansawdd allanol

| | |
|--|---------------|
| Enw:..... | Llofnod:..... |
| Dyddiad:..... | |
| <input type="checkbox"/> heb eu samplu | |

| | |
|------------------------|----------------------|
| Enw'r ymgeisydd | <input type="text"/> |
| Enw'r aseswr: | <input type="text"/> |

| | |
|-------------------------|------------------------------|
| Cyfeirnod elfen: | Meysydd a drafodwyd:: |
| <input type="text"/> | <input type="text"/> |

Rwyf wedi holi'r ymgeisydd uchod fel y nodwyd ac mae'r ymatebion a gofnodwyd a'm hasesiad ohonynt fel y nodwyd.

| | | | |
|------------------------------|----------------------|-----------------|----------------------|
| Llofnod aseswr: | <input type="text"/> | Dyddiad | <input type="text"/> |
| Llofnod yr ymgeisydd: | <input type="text"/> | Dyddiad: | <input type="text"/> |

Bydd eich aseswr/tiwtor yn llenwi un o'r ffurflenni hyn bob tro y byddant yn adolygu eich cynnydd ac yn cytuno ar gamau gweithredu. Mae angen i chi gadw'r copiâu'n ddiogel a bod yn barod i'w cyflwyno gyda'ch gwaith

| | |
|---------------|------------------|
| Aseswr: | Ymgeisydd: |
|---------------|------------------|

Cynllun Asesu / Adolygiad o Gynllun Asesu blaenorol

Adolygiad o weithgarwch / Adborth

Pwyntiau gweithredu / Gweithgareddau Asesu wedi'u Cynllunio ar gyfer y Sesiwn nesaf

Llofnodion

Dyddiad, amser a lleoliad y sesiwn nesaf :

Aseswr: Dyddiad:

Ymgeisydd: Dyddiad:

Crynodeb o bolisiâu asesu City & Guilds

Iechyd a Diogelwch

Mae'n rhaid i'r holl ganolfannau sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd diogel ac iach ar gyfer dysgu, gan gynnwys ymsefydlu ac asesu. Mae gwirwyr allanol City & Guilds yn gwirio hyn pan fyddant yn ymweld â chanolfannau asesu.

Cyfleoedd Cyfartal

Bydd gan eich canolfan bolisi cyfle cyfartal. Bydd eich canolfan yn esbonio hyn i chi yn ystod eich cyfnod ymsefydlu, ac yn rhoi copi o'r polisi i chi o bosibl.

Mae polisi cyfle cyfartal City & Guilds ar gael ar ein gwefan www.cityandguilds.com gan Dîm Cefnogi Cwsmeriaid City & Guilds neu eich canolfan.

Mynediad i asesiad

Mae cymwysterau City & Guilds yn agored i bob ymgeisydd, waeth beth fo eu rhywedd, hil, cred, oedran neu anghenion arbennig. Efallai y bydd ar rai ymgeiswyr angen help ychwanegol gyda'u hasesiad, er enghraifft, gall fod ar berson sydd â nam ar y golwg angen darllynydd.

Os ydych yn meddwl y bydd arnoch angen trefniadau asesu amgen oherwydd bod gennych anghenion arbennig, dylech drafod hyn â'ch canolfan yn ystod eich cyfnod ymsefydlu, a chofnodi hyn ar eich cynllun asesu. Bydd City & Guilds yn galluogi canolfannau i wneud trefniadau amgen i chi os ydych chi'n gymwys ac os bydd y cymhwyster yn caniatáu hyn. Rhaid cytuno ar hyn cyn i chi ddechrau ar eich cymhwyster.

Mae dogfen canllawiau a rheoliadau *Mynediad i asesiadau a chymwysterau* City & Guilds ar gael ar wefan City & Guilds www.cityandguilds.com, gan Dîm Cefnogi Cwsmeriaid City & Guilds neu eich canolfan.

Cwynion ac apeliadau

Rhaid bod gan ganolfannau bolisi a gweithdrefn i ddelio ag unrhyw gwynion sydd gennych. Efallai y byddwch yn teimlo nad ydych wedi cael eich asesu'n deg, neu efallai eich bod am apelio yn erbyn penderfyniad asesu os nad ydych yn cytuno gyda'ch aseswr.

Bydd y gweithdrefnau hyn yn cael eu hesbonio yn ystod y cyfnod ymsefydlu a byddwch yn cael gwybodaeth am y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd yn eich canolfan sy'n gyfrifol am hyn.

Gellir datrys y rhan fwyaf o gwynion ac apeliadau yn y ganolfan, ond os byddwch yn dilyn gweithdrefn ganolfan a'ch bod dal yn anfodlon gallwch gwyno i City & Guilds.

Mae polisi cwynion City & Guilds ar ein gwefan www.cityandguilds.com, neu ar gael gan Dîm Cymorth Cwsmeriaid City & Guilds neu eich canolfan.

Cysylltiadau defnyddiol

Dysgwyr y DU

Gwybodaeth gyffredinol am gymwysterau

E: learnersupport@cityandguilds.com

Dysgwyr rhyngwladol

Gwybodaeth gyffredinol am gymwysterau

E: intcg@cityandguilds.com

Canolfannau

Cofrestriadau arholiadau, Tystysgrifau Ymrestru, Anfonebau, Deunyddiau arholiad ar goll neu hwyr, Adroddiadau cofrestru enwol, Canlyniadau

E: centresupport@cityandguilds.com

Cymwysterau pwnc sengl

Cofrestriadau arholiadau, Canlyniadau, Ardystio, Deunyddiau arholiad ar goll neu hwyr, Cais am ffurflenni (BB, canlyniadau, cofrestru), Newid dyddiad ac amser arholiad

E: singlesubjects@cityandguilds.com

Dyfarniadau rhyngwladol

Canlyniadau, Cofrestriadau, Ymrestru, Anfonebau, Deunyddiau arholiad ar goll neu hwyr, Adroddiadau cofrestru enwol

E: intops@cityandguilds.com

Walled Garden

Ailgyhoeddi cyfrinair neu enw defnyddiwr, Problemau technegol, Cofrestriadau, Canlyniadau, e-asesu, Llywio, Opsiwn defnyddiwr/dewislen, Problemau

E: walledgarden@cityandguilds.com

Cyflogwr

Atebion i gyflogwr, Mapio, Achredu, Datblygu Sgiliau, Ymgynghoriaeth

Ffôn: +44 (0)121 503 8993

E: business@cityandguilds.com

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir ar adeg mynd i'r wasg. Fodd bynnag, mae cynhyrchion a gwasanaethau City & Guilds yn destun datblygiad a gwella parhaus a chedwir yr hawl i newid cynhyrchion a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn atebolrwydd dros golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

Os oes gennych gŵyn, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ynghylch unrhyw un o'r gwasanaethau a ddarparwyd gennym, anfonwch e-bost: **feedbackandcomplaints@cityandguilds.com**

**Cyhoeddwyd gan City &
Guilds 1 Giltspur Street
Llundain
EC1A 9DD
www.cityandguilds.com**

**Mae City & Guilds yn elusen
gofrestredig a sefydlwyd i
hyrwyddo addysg a hyfforddiant**

LB-03-6317